

Pris: 50c

Papur Pawb

Medi 2017 Rhif 431



Cneifio Cyflym – tud 13

tud 3, 5

Pobl a Phethe

tud 7

Canlyniadau'r Sioe

tud 11

Y Gair Olaf

tud 16

Chwaraeon

Diwedd Cyfnod



Chwaraewyd gêm bêl-droed olaf Clwb Tal-y-bont ar Gae'r Odyn Galch ar 30 Awst gyda buddugoliaeth o 1-0 yn erbyn Padarn United.

Ond doedd fawr o ddathlu ymhlith chwaraewyr a swyddogion y clwb wrth i bennod ddisglair yn eu hanes ddod i ben.

Am weddill y tymor, cartref dros dro'r clwb fydd caeau'r brifysgol ym Mlaendolau, ond nid yw'n debygol y gall y clwb barhau wedi hynny.

Mae'r ail dîm eisoes wedi'i ddiddymu. Er iddo ennill pencampwriaeth yr ail adran tymor diwethaf, nid yw'r clwb yn medru fforddio cynnal dau dîm heb gae. Nid oes cae ymarfer

bellach gan y Clwb Ieuenctid ac ni chynhelir yr Wyl Bêl-droed yn 2018.

Mae dyfodol ansicr i bêl-droed yn yr ardal felly, er yr ymroddiad gan y criw gweithgar sydd wedi ceisio'u gorau i gynnal gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc y dalgylch.

Nid oes gan bawb ddiddordeb mewn chwaraeon ond does dim amheuaeth bod gweithgareddau fel pêl-droed yn bwysig o safbwynt ymarfer corfforol, rhoi pleser cyffredinol a chynnal diddordeb ymhlith yr ifanc mewn cymuned fel Tal-y-bont.

Mae digon o gwyno am ymddygiad pobl ifanc y dyddiau hyn ond mae atal y cyfleoedd a ddaw o gicio pêl yn siŵr o fod yn andwyol i'n cymuned yn y pen draw.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Karren Roberts 07800 806578

Maes-y-deri: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498

Parsel Henlllys: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566

Bont-goch: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230

Tre Taliesin: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260

Tre'r-ddôl: Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028

Eglwysfach/Ffwrnais: Swydd wag

Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203

Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697

Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344

Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093

Tanysgrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448

Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076

Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Llythyron

Annwyl Gyfaill

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi Papur Gwyn 'Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'. Mae copi ar gael o'r ddolen isod:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-y-gymraeg-papur-gwyn>

Byddwn yn trefnu digwyddiadau ymgysylltu i drafod y Papur Gwyn ym mis Medi a Hydref a fe wnawn sicrhau eich bod yn derbyn y manylion perthnasol.

Diolch

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Eglwys Annibynnol Bethel Tal-y-bont
Gwahoddir Ceisiadau am

Weinidog/Arweinydd Rhan-amser

I gynorthwyo ymdrechion yr aelodau (75 mewn nifer) i gynnal yr achos mewn pentref gwledig, bywiog a Chymraeg.
Telerau i'w Trafod

Ceisiadau trwy lythyr erbyn 15 Medi 2017
Cysyllter â : Phil Davies, Gwynionydd, 4 Maes-y-felin,
Tal-y-bont Ceredigion, SY24 5DZ
01970 832384 gwynionydd@btinternet.com

argraffu da
am bris da



holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Dyddiadur

MEDI

- 10 Bethel 2** Gweinidog (C)
Nasareth 2 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Gweinidog
- 12 Cymdeithas y Chworiydd**
Rehoboth 'Hedd Wyn a'r Ysgwrn' (Naomi Jones)
- 15-17 Gŵyl Lenyddol R.S.**
Thomas Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach
- 16 Diwrnod Hwyl Arthur**
Wyn, Llew Gwyn, 2pm ymlaen
- 17 Bethel 10** Gwasanaeth Teulu
Nasareth 5 Judith Morris (C)
Rehoboth 10 Judith Morris
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwylol Weddi

- 24 Bethel** Uno yn Sul Menter Gobaith
Nasareth Sul Menter Gobaith
Rehoboth Sul Menter Gobaith
Bethesda Tynant 2 Beti Griffiths
- 25 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Noson o Gerddoriaeth Gwerin yng nghwmni Claire Jones ac Edryd Williams
- 26 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn**
- 28 Agoriad y Cletwr newydd**, Tre'r-ddôl 9 a.m.
- 30 Cwmni Theatr Bara Caws** 'Dim Byd Ynni', comedi i'r teulu cyfan, 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont (£7/£4)

HYDREF

- 1 Bethel 10** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Richard Lewis
Rehoboth 2 Adrian P. Williams
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 3 Sefydliad y Merched Taliesin** Cyfarfod Blynnyddol
- 8 Bethel 2** Gweinidog
Nasareth 2 Uno ym Methel
Rehoboth 5 Eifion Roberts (R)
- 10 Cymdeithas y Chworiydd**
Rehoboth 'Hanner canrif Y Lolfa' (Robat Gruffudd)
- 20 Sesiwn Nos Wener** Alys Williams a'r Band, Llew Du 8p.m.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

GALAR A FI
7.00, nos Fercher, 27 Medi
Noson yng nghwmni rhai o gyfranwyr y gyfrol hon - Eysyllt Maelor, Sara Maredudd Jones, Nia Gwyndaf, Manon Steffan Ros, Sharon Marie Jones, Gareth Roberts a Dafydd Pritchard. Profiadau ingol o fyw gyda galar. Mynediad am ddim. Croeso i bawb. Trefnir gan Y Lolfa a Morlan.

STOMP LLYFRAU: LLYFR Y FLWYDDYN
7.30, nos Wener, 13 Hydref
Bydd 9 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o Lyfr y Flwyddyn. Pa lyfr daw i'r brig tybed? Mynediad: £3

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; post@morlan.cymru

Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK** Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Hydref fydd Helen (helen.iwan@btinternet.com), Rhian (rhian.nelmes@btinternet.com) a Ceri. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Hydref a bydd y papur ar werth ar 13 Hydref.

Penblwyddi Arbennig yn Nhaliesin

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rob Gwillim, Roman House a Martin Davis, Is-y-coed, Taliesin, dau gymydog a ddathlodd yr un penblwydd arbennig ar 7 ac 8 Awst yn y drefn honno. Hefyd i Janet Evans, Cefngweiriog a ddathlodd benblwydd nodedig ar 17 Awst.

A phenblwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Brian Davies, Rhos, Taliesin sy'n dathlu penblwydd arwyddocaol ar ddechrau mis Medi a Jenny Fell, 18, Pencae sy'n dathlu penblwydd mawr ar 20 Medi eleni.

Babi newydd

Llongyfarchiadau mawr i Holly a Wayne Aubrey, Gleanings, Tal-y-bont ar enedigaeth Erin Haf. Llongyfarchiadau hefyd i'w mamgu a tadcu (rhieni Holly), Denise a Barry Morgan, Awelon, James Street, Tal-y-bont sydd â thair wyres fach yn byw yn y pentref erbyn hyn.

Parti cynhesu tŷ

Cafwyd achlysur hyfryd iawn mewn tywydd bendigedig pan wahoddwyd holl drigolion Bont-goch gan Jonathan Karas, perchennog newydd Yr Hen Ficerdy, i'w barti cynhesu tŷ ar brynhawn Dydd Sul, 27 Awst. Roedd pawb wedi mwynhau'r achlysur yn fawr iawn, ac wrth ddiolch i Jonathan am ei haelioni, dymunwn yn dda iawn iddo yn ei gartref newydd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Chris a Les Barnett, Hafan, Tal-y-bont ar golli eu merch Rebecca yn gwbl ddisymwrth yn 33 oed ym mis Mehefin. Roedd yn wyneb llon a chyfarwydd i gwsmeriaid Craft, ac i gyd-deithwyr ar y bws boreol o Dal-y-bont i Aberystwyth. Estynnwn ein cydymdeimlad yn ogystal i'w brodyr a'i chwiorydd, William, Adrian a Kim, ac i'r teulu oll.

Croeso

Croeso cynnes i Sarah a'i mab Bowen sydd wedi symud i fyw i Frynawel, Taliesin yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i Anwen Howard, Brynfa, Tal-y-bont ar golli ei thad yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Parc Chwarae, Bont-goch

Mae'n dda adrodd fod y parc chwarae bellach yn weithredol gyda'r holl offer yn eu lle. Bydd yn adnodd ychwanegol pwysig i'r pentref.

Eglwys Sant Pedr, Elerch

Cynhaliwyd arbrawf llwyddiannus iawn gan y Ficer trwy drefnu gwasanaeth teuluol hanner awr ar brynhawn Dydd Sul, 12 Awst.

Roedd yn braf gweld cymaint yn bresennol. Gobeithir trefnu addoliad tebyg ar thema'r Cynhaeaf ym mis Hydref.

Cwmni Theatr Bara Caws
yn cyflwyno

DIM BYD YNNI

Comedi i'r teulu cyfan
30 Medi, 7.30

Neuadd Goffa Tal-y-bont
£7/£4

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda Melissa a Dafydd Mason, Craig Fach, Bont-goch yn dilyn marwolaeth ddiweddar tad Melissa yn ninas Caeredin, Yr Alban.

Symud tŷ

Pob hwyl i Vicky a Mark Joseph a'r teulu sydd wedi symud i'r Hen Ysgoldy, Tal-y-bont.

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Cynhelir Te Mefus yn y
Cartref
Pnawn Sadwrn 16 Medi
am 2 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Siôn Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont ar ymadael â RAF Shawbury fel Cynorthwydd Rheoli Eheddiadau (Flight Operations Assistant). Mae e wedi cael ei benodi'n Rheolwr Traffig Awyr yn RAF Waddington.

Gwellhad buan

Braf yw gweld John Foster, Bristol House, Tal-y-bont nôl adref wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Penblwydd arbennig

Dymunwn benblwydd hapus iawn i Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont sy'n dathlu penblwydd arbennig iawn ar 6 Medi.

Tristwch

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth dau gymeriad arbennig o Dre Taliesin: Brenda Jeeves, Llys-y-coed a fu farw ym mis Mehefin yn 84 oed – cydymdeimlwn yn fawr â'i brawd Gareth a gweddill y teulu.

Hefyd, Vera Lewis, 6, Pencae a gafodd ei phenblwydd yn 90 oed ym mis Mehefin ac a fu farw ym mis Gorffennaf - rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i merch Iona a'i mab Emyr a gweddill y teulu.

Mae teyrngedau'r i'r ddwy ar dudalen 12.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gill Jones, Trewern, Tal-y-bont a gafodd gwymp cas yn ddiweddar.

Cafodd Aeron Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, hefyd ddamwain yn ystod yr haf. Braf ei weld bellach yn gwella'n dda o'i anafiadau.

Croeso

Croeso mawr i Alice a Sanan Morgan sydd wedi dod i fyw i 3 Tancoed, Tal-y-bont

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

Penblwydd hapus

I Howard Ovens, Frondirion, Tal-y-bont sydd wedi dathlu ei benblwydd yn 80 yn ddiweddar.


Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Avril a Dai Bond, Brodawl, Taliesin, ar golli Megan, cyfnither Avril ym mis Mehefin. Hefyd, â Megan Brickley, Tan-y-bryn, Taliesin ar golli ei chwaer-yng-nghyfraith Beryl dros yr haf.

Priodasau



Ar 5ed o Awst, priodwyd Geraint Jenkins, Cerrigcaranau, Tal-y-bont ac Eleri Wyn Marshalsay yn Eglwys Llanddeiniol. Maent wedi ymgartrefi yn Cerrigcaranau, gyda mis mêl i ddilyn yn yr hydref.



Cynhaliwyd priodas Siona Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont a Simon Baur, Yr Almaen, yn y Llyfrgell Genedlaethol, ar 29ain o Orffennaf. Bedd Taliesin oedd lleoliad y wled.

Treuliwyd eu mis mel yng Ngwlad Groeg. Dymunwn pob hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu cartref newydd ym Munich, Yr Almaen.



Ar y 3ydd o Fehefin, priodwyd Dr Elinor Jones, merch Barrie a Heather Jones, Llys Terfyn, Tal-y-bont a Dr Tim Hamilton yn Nhŷ Maunsel, Gwlad yr Haf. Maent yn gobeithio dathlu eu mis mêl yn Ne Affrig nes ymlaen yn y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'r ddau ohonynt yn gweithio yn ysbytai yn ardal Caerdydd. Pob dymuniad da iddynt.

Gwobrwyo llety pum seren



Llongyfarchiadau i Evan Evans, Tal-y-bont ar ei lwyddiant yng Ngwobrau Blynyddol Menter Aberystwyth gafodd eu cynnal yn yr Hen Goleg, Prifysgol Aberystwyth ar y 23ain o Fehefin.

Cyflwynwyd Gwobr Lletygarwch Menter Aberystwyth iddo am Fythynnod Gwyliau Tynrhelyg (Eithinog, Helygen a Llechwedd Mawr), bythynnod pum seren sydd wedi bod yn croesawu ymwelwyr i ardal Tal-y-bont a'r cyffiniau ers saith mlynedd bellach.

Pobl a Phethe

Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad buan i John Thomas, Rhydyronnen, Tal-y-bont sydd yn Ysbyty Bronglais wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg.

Ac felly hefyd i Owain Saunders-Jones, mab Glyn a Gill Saunders-Jones, Fagwyr, Tal-y-bont a gafodd ddamwain gas iawn ar ei feic yn Ffrainc dros yr haf.

Llongyfarchiadau

Estynnwn longyfarchiadau gwresog iawn i bawb enillodd radd ac a dderbyniodd canlyniadau arholiadau dros yr haf. Pob hwyl i chi gyda'r camau nesaf.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Glyn Jenkins, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont sydd wedi dyweddio gyda Jonelle Lubbe, yn Seland Newydd.

Sioe Llangynfelyn

Cynhaliwyd Sioe Llangynfelyn ar 2 Medi yn y Llan Fach. Bydd adroddiad, lluniau a'r canlyniadau yn ymddangos yn rhifyn Hydref o'r papur.

Priodas Aur

Gobeithio y cafodd Rhys a Trish Huws, Llwyn Onn, Pentrebach amser da ar yr Ynys Werdd wedi iddynt deithio yno i ddathlu eu priodas aur. Llongyfarchiadau i chi.

Marwolaethau

Cydymdeimlwn â theulu Rhidian Hughes a fu'n byw ym Maes-y-deri ychydig flynyddoedd. Bu farw Rhidian yn 67 mlwydd oed ddechrau Awst.

Perfformiwr Prysur

Bu Geraint Howard, Brynfa, Tal-y-bont yn cymryd rhan mewn dau gynhyrchiad arbennig yn ystod yr haf. Chwaraeodd ddau ran yng nghynhyrchiad Coleg Ceredigion o *Sweeney Todd*, a chafodd ganmoliaeth yn y wasg am ei bortread o Beadle Bamford.

Yna, yn ddiweddarach, gyda Chwmni Theatr Wardeniaid Aberystwyth bu'n unawdydd yn eu cynhyrchiad o 'Fall 7 times, stand up 8'.

Does ryfedd felly mai ei ddymuniad yw dilyn cwrs perfformio yn y coleg yng Nghaerdydd fis Medi. Pob dymuniad da i ti yno Geraint.

Gohebydd Ysguborycoed

Mae Lona Mason wedi rhoi'r gorau i fod yn ohebydd Papur Pawb ym mhlwyf Ysguborycoed. Rydym yn ddiolchgar iawn i Lona am ei chyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r papur yn y broses o chwilio am olynydd.

Diolch

Mae Cymdeithas Papur Pawb yn ddiolchgar iawn i Gylch Cinio Aberystwyth am y rhodd ariannol hael a dderbyniwyd dros yr haf.

Cigydd



01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well na blasu cigoedd 'Porchell'?

Sioe Fawr Llanelwedd

Cafodd nifer o ardal Papur Pawb sylw a llwyddiant yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol eleni. Mae lluniau i'w gweld yn yr atodiad lliw.

Anrhydeddau

Derbyniodd Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Aelodaeth Oes er Anrhydedd am ei gwaith caled a'i hymroddiad fel un o stiwardiaid y Sioe. Dechreuodd Dilys fel stiward cyffredinol yn yr adran Cynnyrch a Gwaith Llaw ac mae hi bellach yn dal swydd Uwch Stiward yr Adran, gyda chyfrifoldeb arbennig am yr Adran Coginio Iau.

Un arall a dderbyniodd anrhydedd oedd Evan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont. Rhoddwyd Medal Hir-Wasanaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru iddo, i gydnabod hyd ei wasanaeth i'r diwydiant amaethyddol. Mae e wedi gweithio i John a Tia Jones o Ddarowen, Machynlleth am dros 40 mlynedd.

Enillwyr

Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont enillodd un o brif wobrau'r Sioe, sef gwobr Dr Emrys Evans, oedd yn cael ei ddyfarnu eleni am sgiliau bugeilio. Cafodd ei ddewis i gynrychioli Ceredigion, a'r beirniaid yn mynd o amgylch y siroedd cyn penderfynu mai Dewi oedd yr enillydd.

"Caran Thunderballs" oedd enw anrhydeddus pencampwr brîd gwryw Gwartheg Duon Cymreig wedi ei fagu gartref gan Eifion a Geraint Jenkins Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont.

Enillodd Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin Gwpan Goffa V.G. Jones ynghyd â Medal Aur a thystysgrif RWAS am ennill y nifer mwyaf o bwyntiau yn yr Adran Gwaith Llaw. Cafodd bedair gwobr gyntaf a phedair ail wobwr am ei gwaith celf yn cynnwys darluniau ffeltio nodwydd, bag llaw o waith ffeltio gwlyb, ffotograffiaeth a llawysgrifen caligraffi.

Yn yr adran gosod blodau, cafodd wobwr gyntaf am osodiad modern ar y thema 'Psychedelia', 3ydd wobwr am osodiad bychan ar y thema 'Adlewyrchiad' a chanmoliaeth uchel am osodiad trawiadol iawn ar y thema 'Ffenest Siop'. Gan bod y cystadleuwyr yn yr adran gosod blodau'n osodwyr blodau proffesiynol o'r radd uchaf, a nifer ohonynt newydd ennill medalau aur yn RHS Chelsea, roedd ennill y gwobrau hyn yn dipyn o gam.

Mae Susan Rowlands hefyd wedi cael llwyddiant mawr dros yr haf. Cafodd gwobr gyntaf yn y Sioe Fawr gan ennill Pencampwriaeth Hwrdd Orau yn yr Adran Defaid Zwartbles, ac roedd yn is-bencampwr hefyd yn yr 16 Olaf yng nghystadlaeth Oen Hwrdd Gorau'r Sioe. Aeth ymlaen wedyn i Sioe Sir Fôn gan gipio'r wobwr gyntaf yn ei Dosbarth, pencampwr Hwrdd Gorau Defaid Zwartbles ac is-bencampwr.

Cafodd aelodau C.Ff.I. Ceredigion wythnos i'w chofio yn y Sioe. Ar ôl wythnos o gystadlu brwd rhwng y Ffederasiynau daeth llwyddiant ysgubol i Sir Geredigion wrth gipio cwpan NFU ar ddiwedd yr wythnos. Dyma sut gyfrannodd aelodau C.Ff.I. Tal-y-bont at y llwyddiant:

Canu: 1af: Unigol, Beca Williams; Grŵp: 1af, Tal-y-bont

Cneifio: 4ydd, 26 oed neu iau, Dewi Jenkins

Beirniadu Defaid Suffolk: 2il: Bedwyr Siencyn, 1af, 16 oed neu iau; 6ed, 21 oed neu iau, Gwenno Evans; 2il, 26 oed neu iau, Dewi Jenkins

Beirniadu Gwartheg Limousin: 1af: Bedwyr Siencyn, 1af, 16 oed ac iau Dyfarnwyd bod Ceredigion yn ennill tlws coffa R.L.Jones am y mwyaf o farciau yn yr Adran Beirniadu Stoc dros dair cystadlaeth.

Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Meinciau Newydd

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cymeradwyaeth swyddogol Cyfoeth Naturiol Cymru i osod mainc picnic yng nghoedwig Allt y Crib. Gan hyn, fe gytunwyd i archebu'r fainc picnic, yn ogystal â'r ddwy fainc ychwanegol i fynd dros y ffordd o *Hair by Richard*, ac wrth y ffald, Penpompren.

Gosod Biniau

Wrth ystyried y broblem o faw cŵn, cytunwyd y byddai'n dda gosod rhagor o finiau baw cŵn o amgylch pentref Tal-y-bont. Cysylltodd y clerch â'r Cyngor Sir, ac fe esboniwyd nad oeddent yn hapus i gynghorau osod biniau baw cŵn bellach gan fod modd gwaredu ar faw cŵn mewn biniau gwastraff arferol. Esboniodd y Cyngor Sir y byddent yn hapus i wagu biniau gwastraff ychwanegol.

Yn ogystal, nodwyd fod problem sbwriel yn y Fynwent Gyhoeddus. Esboniwyd fod nifer o bobl yn taflu torchau blodau plastig, a sbwriel tebyg, ar y twmpath pridd ar waelod ochr newydd y fynwent. Fe drafodwyd y posibilrwydd o osod bin tu fewn i'r fynwent, ond fe nododd y Cyngor Sir na fyddent yn gallu gwagu unrhyw fin oedd tu fewn y fynwent o achos rhesymau yswiriant, ond y gellir gwagu bin wrth y fynedfa.

Gan hyn, fe gytunwyd i brynu tri bin ychwanegol yn y pentref a gosod sticeri arnynt i'w wneud yn glir y gellir gwaredu ar faw cŵn yn y biniau yma. Cytunwyd i'w gosod: un ger Dôl Pistyll, un wrth Garnwern, ag un wrth fynedfa'r Fynwent.

Parc Chwarae Bont-goch

Ar gychwyn mis Gorffennaf, fe ddechreuodd y gwaith o osod offer chwarae ym Mharc Chwarae, Bont-goch. Fe agorwyd y parc yn ffurfiol ar 22 Gorffennaf, gyda barbeciw a gemau wedi'u trefnu gan bwyllgor llywio'r parc.

Ymddiswyddiad Clerc

Fe dderbyniodd y Cyngor ymddiswyddiad y Clerc, Lowri Jones, yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Gan hyn, mae'r Cyngor yn chwilio am Glerc newydd i ddechrau cyn gynted â phosib. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 2 Hydref, 2017. Am ragor o wybodaeth a phecyn ymgeisio, dylid cysylltu: cyngorcam@gmail.com | 07886 367027

Prosiect Archwilio: Baw Cŵn

Mae'r Cyngor wedi derbyn y cyfle i fod yn rhan o brosiect sydd am gymryd profion pridd mewn ardaloedd lle mae baw cŵn yn peri problemau. Diben y prosiect yw profi'r samplau pridd am yr haint *Toxocara Canis* sydd yn gallu bod yn bresennol mewn baw cŵn. Mae'r haint yn gallu effeithio ar blant, pobl hawdd eu clwyfo, yn ogystal â chŵn sy'n dod i gyswllt ag unrhywbeth sydd wedi'i heintio. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar ddiwedd mis Awst gan Gymdeithas Gymunedol Waunfawr yn galw ar gynghorau cymuned ardal Aberystwyth i fod yn rhan o'r prosiect yma, a fydd yn cael ei redeg gan Brifysgol Aberystwyth.

Hoffai'r Cyngor dderbyn enwebiadau o lefydd penodol lle mae ffowlio cŵn yn wael yn y plwyf er mwyn penderfynu os fyddent yn cymryd rhan yn y prosiect ai pheidio. Os wyddech am ardal lle mae ffowlio cŵn yn arbennig o wael, a fyddech cystal â chysylltu gyda'r cyngor: cyngorcam@gmail.com. Fe drafodir unrhyw enwebiadau yn ystod y cyfarfod nesaf.

Diwrnod Hwyl Arthur Wyn

16 Medi 2017
Llew Gwyn, Tal-y-bont

Hwyl i'r teulu gyfan o 2pm:
ras hwyiaid, helfa drysor,
peintio wynebau
Ocsiwn am 6pm
Bingo a poker o 7pm

Kara Jones 07507 716583

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cylch ar 10 Gorffennaf, yn y Tŷ Sbri.

Roedd yn gyfle i edrych yn ôl a nodi rhai o'r datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf, fel sefydlu'r Clwb Brecwast, yn ogystal â chynllunio at y dyfodol er mwyn parhau â'r ddarpariaeth ardderchog i blant bach yr ardal.

Codi Arian

Mae gweithgareddau codi arian yn hanfodol i'r Cylch er mwyn talu am adnoddau a gweithgareddau ychwanegol, ond hefyd er mwyn talu am waith cynnal a chadw angenrheidiol. Yn ogystal, mae'n ffordd o gryfhau'r cysylltiadau gyda'r gymuned leol a chodi proffil y Cylch a'r gwasanaeth mae'n ei gynni.

Bu'r Pwyllgor a'r rhieni'n weithgar iawn yn trefnu digwyddiadau codi arian gydol y flwyddyn, a buont yn llwyddiannus hefyd wrth wneud ceisiadau am nifer o grantiau.

Gwaith cynnal a chadw a datblygu'r safle

Yn sgil yr ymdrechion codi arian sylweddol, cytunwyd ar raglen o waith cynnal a chadw a datblygu'r safle, gyda'r rhan helaeth i ddigwydd dros yr haf.

Y pwysicaf o'r rhain yw creu ardal ar gyfer sesiynau 1 i 1. Mae ardal o'r fath yn bwysig ar gyfer sesiynau therapi iaith a lleferydd, cefnogaeth ychwanegol, neu i gynnal profion o wahanol fathau. Hyd yma bu'n rhaid defnyddio'r cyntedd, sy'n bell iawn o fod yn ddelfrydol.

Caiff gwaith sylweddol ei wneud hefyd ar yr ardal allanol i wella'r cyfleusterau.

Person cofrestredig

Estynnwyd diolch mawr i Rhian Nelves sydd wedi rhoi 14 mlynedd o wasanaeth fel y 'Person Cofrestredig' i'r Cylch. Heb Berson Cofrestredig, nid oes Cylch, felly er mawr ryddhad i'r pwyllgor fe gytunodd i barhau, er ei bod hi'n gweithio y tu allan i'r dalgylch erbyn hyn, nes bod rhywun yn camu i'r adwy. Nid yw llenwi'r bwlch wedi bod yn fater rhwydd, ond mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Monica Lloyd-Williams am fynd drwy'r broses drom o ymgeisio, ac am fod yn fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

Swyddogion

Etholwyd Helen Ovens yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, a Chloe Birds yn Is-gadeirydd, gyda Cath Lloyd-Williams yn parhau fel Ysgrifennydd, ac Eifiona Evans yn parhau fel Trysorydd. Cytunodd pump o rieni eraill i fod yn aelodau o'r Pwyllgor, y nifer fwyaf ers sawl blwyddyn.

Ti a Fi

Ers i Anti Shân adael, mae Shelley Foulkes a Marie Woodling wedi bod yn rhedeg y grŵp Ti a Fi a diolchwyd yn fawr iddynt am wneud hynny. Rydym yn falch dros ben fod Ceri Morgan wedi cytuno i ymgymryd â'r rôl ar gyfer y cyfnod i ddod.

Diolchwyd i staff y Cylch am y profiadau a'r gofal eithriadol maen nhw'n rhoi i'r plant, ac i'r pwyllgor am y gwaith caled drwy'r flwyddyn. Estynnwyd diolchiadau yn ogystal i Fal Jenkins am ddod mewn i'r Cylch yn gyson i roi sesiynau cerdd i'r plant, i Ysgol Tal-y-bont a fu dan ofal Sioned Morris yn ystod y flwyddyn, ac i'r rhieni a'r plant.

RW

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Sioe Tal-y-bont

Cafwyd Sioe ardderchog a hwyliog eto eleni, ar ddydd Sadwrn penwythnos gŵyl y banc, mis Awst.

Cynhesodd y diwrnod wrth fynd yn ei flaen nes bod yn grasboeth ganol prynhawn, a phobl yn chwilio am gysgod yn y pebyll. Roedd digon i'w diddanu yno yn ôl yr arfer, â'r babelll crefftau, yn arbennig, yn cynnwys llawer o stondinau a chynnyrch amrywiol.

Roedd nifer yr ymwelwyr dipyn yn uwch eleni, gyda thua dwy fil yn dod drwy'r gatiau.

Llywyddion y Sioe oedd Dilys a David Morgan, Alltgoch, a chyflwynwyd blodau iddynt i ddiolch am eu gwaith gan Mari Evans, Glanaber, Tal-y-bont.

Llongyfarchiadau mawr i'r pwyllgor, i'r llywyddion ac i'r holl wirfoddolwyr am drefnu sioe mor hwyliog a graenus, sy'n denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o bell ac agos. Dyma ddigwyddiad y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Canlyniadau Lleol

GWREIDDIAU A GRONYNNAU

Belen o Wair Dôl

1. Elfed Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

CYNNYRCH GARDD

Casgliad o bum winwnsyn

3. Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont

3 Moronen Fer

3. Anthony Holt

Llysieuyn di-siâp

1. Anthony Holt

3 Panasen

3. Anthony Holt

4 Taten Lliw

3. Anthony Holt

1 Sypyn o Domatos

1. David Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

2 Faro 12 modfedd o hyd a mwy

1. Helen Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

3 Corbwmpen

2. Sarah Reisz, Bryngryffty, Tal-y-bont

LLEOL

Casgliad o 4 Perllysiau

1. Sarah Reisz

2. Sarah Reisz

3. Helen Hicks

3 Corbwmpen

1. Sarah Reisz

4 Taten

1. Dafydd a Lizzy Hughes, Coetmor, Tal-y-bont

2 a 3. Helen Hicks

3 Coesyn Riwbob

1. Helen Hicks

2. Anthony Holt

4 Ffa Dringo

1 a 2. Elfed Jones

Casgliad o lysiau ar hambwrdd

2. Claire Fowler, Bronygân, Tal-y-bont

3. Helen Hicks

FFRWYTHAU

3 Afal Bwyta

1. Mai Leeding, Glanant, Taliesin

2. Lisa Tomos, Awelon, 6

Pentrebach, Tal-y-bont

3. Cathryn Lloyd Williams, Min y Gors, Taliesin

3 Afal Coginio

2. Cathryn Lloyd Williams

3. Mai Leeding

3 Peren Fwyta

1. Elizabeth Evans, Coed-yr-Eos, Taliesin

2. Sarah Reisz

3 Peren Goginio

1 a 2. David Jones

3. Mai Leeding

3 Eirinen

1. Mai Leeding

2. David Jones

6 Eirinen Ddu

1. Sarah Reisz

2. Elfed Jones

Clwstwr o Rawnwin

2. Dafydd a Lizzy Hughes

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Mai Leeding

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Mai Leeding

BLODAU

1 Rhosyn Te Hybrid

3. Valerie Deaville, Tal-y-bont

6 Math o Flodau'r Ardd wedi'u henwi

1. Sarah Reisz

Cynhwysydd o Flodau

Blynnyddol

2. Sarah Reisz

Suddlon mewn Pot

1. Sarah Reisz

Planhigyn Dail y Ty^mewn Pot

1 a 2. Sarah Reisz

Planhigyn Ty^yn ei Flodau

mewn Pot

1. Sarah Reisz

3. Valerie Deaville

Mynawyd y Bugail mewn Pot

3. Sarah Reisz

Ffiwsia yn ei flodau mewn Pot

2 a 3. Sarah Reisz

Gardd Fach ar Blât - Plant o dan

14 mlwydd oed

1. Lela Jenkins, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont

2. Carys Joseph, Yr Hen Ysgol, Tal-y-bont

Casgliad o Flodau Gwylt. Plant dan 14 mlwydd oed

1. Grace Woodling, Maesyllan, Tal-y-bont

2. Therese Woodling, Maesyllan, Tal-y-bont

Tusw Ysgwydd Gorau

3. Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin

Basged grog yn ei blodau

1 a 2. Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont

3. Sarah Reisz

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Gwen Manley

Cwpan am y pwyntiau uchaf

(Lleol): Sarah Reisz

GOSOD BLODAU

Dan Fwa Pinc (trefniant bychan)

1 a 3. Beti Wyn Davies

2. Christine Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r-ddôl

Gem Berl (trefniant ar raddfa fach)

2 a 3. Beti Wyn Davies

Oren a Rhydlyd

1. Beti Wyn Davies

3. Christine Gilbert

Traeth Glas – trefniant yn cynnwys dŵr

1. Beti Wyn Davies

2. Christine Gilbert

Angerdd Coch

1. Christine Gilbert

3. Beti Wyn Davies

Mae'n Wyrdd

1. Beti Wyn Davies

2. Christine Gilbert

Trefniant dan amodau – i'w osod o flaen cynulleidfa

1. Hannah Sams, Gellimanwydd, Tal-y-bont

2. Rosie Bailey, Troedrhwiwseiri, Bontgoch

3. Siona Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont

Cwpan am y trefniant bychan

gorau: Beti Wyn Davies

Cwpan am yr arddangosfa orau

yn nos. 99-102: Beti Wyn Davies

Cwpan am yr arddangosfa orau

yn y dosbarth dan amodau:

Hannah Sams

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Beti Wyn Davies

Cwpan am yr arddangosfa orau

yn adrannau'r Blodau a'r Gosod

Blodau: Beti Wyn Davies

COGINIO

Cacen Dathlu

3. Liz Roberts, Maes-y-deri, Tal-y-bont

4 Cacen Gwpan wedi eu haddurno

1. Liz Roberts

Cacen Ffrwythau

1. Nia Evans, Rhiwlan, Tal-y-bont

2. Luke Jones, Hyfrydle, Tal-y-bont

Sbwng Fictoria

2. Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont

3. Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl

Cacen Lemwn

1. Marc Richards

3. Janet Evans

Cacen Foron

1. Ben Jones, Bronygân, Tal-y-bont

3. Dafydd a Lizzy Hughes

Bara Brith – heb furum

1. Nia Evans

2. Janet Evans

3. Marc Richards

Torth Cartref – Tin Hirsgwar

1. Jane Bailey, Troedrhwiwseiri, Bontgoch

2. Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont

3. Elfed Jones





4 Sgon

1. Lisa Tomos
3. Janet Evans

6 Pice ar y Maen

1. Marc Richards

Swis-rôl

1. Valerie Deaville
2. Liz Roberts
3. Andrew Morel, Llawrglyn, Bontgoch

Cacen gaws – heb ei chogino

1. Marc Richards
2. Dafydd a Lizzie Hughes

Saig i lysieuwyr

1. Jane Bailey
2. Dafydd a Lizzie Hughes

Fy Hoff Gacen gyda'r Rysait

1. Rosie Bailey
2. Marie Woodling
3. Zoe, Bronygân, Tal-y-bont

Fflan Sawrus

1. Marion Evans, Tynant, Tal-y-bont
3. Eifona Evans, Glanaber, Tal-y-bont

Tarten Ffrwythau

- 2 a 3. Marion Evans

4 Fflapjacs

1. Siwan Haf Evans, Pant-coch, Tal-y-bont
2. Quentin Cruse, Cerrig Mawr, Tal-y-bont

Cacen almwn a rhesins

(Cystadleuaeth i wrywod yn unig)

1. Mick Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
2. Brian Fothergill, Minafon, Tal-y-bont
3. Dafydd Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Liz Roberts

Cwpan am y pwyntiau uchaf i

wrywod: Marc Richards

CYFFEITHIAU

Jar o Jam Ffrwythau Meddal

3. Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont

Jar o Jam Ffrwythau gyda

Charreg

- 2 a 3. Mair Rowlands, Erglodd, Taliesin

Jar o Jeli Ffrwythau

3. Helen Hicks

Jar o Geuled Lemwn

2. Mair Rowlands

Jar o Siytni Afal

1. Nia Evans, Rhiwlan, Tal-y-bont

Jar o Siytni Ffa Dringo

1. Janet Jones

Jar o Siytni arall

- 1 a 3. Janet Jones
2. Nia Evans

Jar Fach o Jeli Mint

1. Ellyw Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont

Jar o Gyffraith Anarferol

1. Janet Jones

Dysgl Fach o Golslo

3. Jane Bailey

Dysgl Fach o Paté

- 1 a 2. Nia Evans

Potel o Gordial

1. Nia Evans

Potel o Wirod Ffrwythau

2. Michael Deaville, 16 Dôl Pistyll, Tal-y-bont

Cwpan am yr arddangosfa orau

yn yr adran Gyffeithiau: Janet Jones

CYNNYRCH LLAETHDY

4 ŵy iâr – Brown

1. Mari a Ieuan Evans, Glanaber, Tal-y-bont

4 ŵy – Arlliwiedig

- 1 a 2. Mari a Ieuan Evans, Glanaber, Tal-y-bont

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Mari a Ieuan Evans

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Mari a Ieuan Evans

MÊL

Jariau 2 lb o Fêl Ysgafn

3. Owain Hammonds, Pennant, Bontgoch

Jariau 2 lb o Fêl Gronynnog

1. Richard Spencer, Manchester House, Taliesin

GWAITH LLAW

Sampler

- 1 a 2. Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont
3. Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont

Unrhyw Eitem mewn Pwyth

Croes

- 1 a 2. Betty Jenkins
3. Dilys Morgan

Clustog

1. Dilys Morgan
- 2 a 3. Betty Jenkins

Rhodd i Faban

3. Jane Pugh, Glanrhyd, Tre'r-ddôl

Unrhyw eitem mewn Cotwm

Crosio

3. Dilys Morgan

Unrhyw eitem mewn Gwaith

Cynfas

1. Betty Jenkins
- 2 a 3. Dilys Morgan

Unrhyw eitem mewn Clytwaith

2. Betty Jenkins

Unrhyw eitem Nadoligaidd

- 1 a 2. Dilys Morgan

Bag – unrhyw gyfrwng

1. Claire Fowler
2. Beti Wyn Davies

Cerdyn Cyfarch

1. Dilys Morgan
3. Betty Jenkins

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Betty Jenkins

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Betty Jenkins

CREFFT

Arwydd Tŷ

1. Cath Maguire, Barynys, Tal-y-bont

Eitem o Waith Coed

1. Michael Deaville
3. Stephen Owen, Rhoslan, Tal-y-bont

Ffio Ffrwythau – unrhyw gyfrwng

- 1 a 2. Stephen Owen

Unrhyw eitem yn defnyddio gwlan

- 1 a 3. Beti Wyn Davies

Paentiad – unrhyw gyfrwng

2. Cath Maguire

Paentiad – unrhyw gyfrwng (dosbarth lleol)

1. Cath Maguire
2. Mick Fothergill
3. Nia Benham, Llonio, Llangynfelyn

Cwpan am yr arddangosfa orau:

Michael Deaville

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Cath Maguire

FFOTOGRAFFIAETH

Mam a'i phlant/phlentyn

3. Beti Wyn Davies

Ffrwythau

Elspeth Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont

3. Elwyn Hammonds, Pennant, Bontgoch

Fy hoff lun

1. Beti Wyn Davies
2. Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont

Fy ngardd

1. Owain Hammonds

Hanes

- 1 a 3. Owain Hammonds

Llwybr

1. Owain Hammonds

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Owain Hammonds

PLANT YSGOL GYNRADD

Cylch Meithrin Tal-y-bont: Byd Natur

1. Arthur Hughes
2. Lloyd Ifan Morgan
3. Mari Evans

Cyfnod Sylfaen (Ysgol

Tal-y-bont): Byd Natur

1. Jayden Hopkins

2. Hedydd Beechey

3. Arianna Lloyd Williams

Cyfnod Allwedol 2 (Ysgol Tal-y-bont): Dŵr

1. Ryan Evans
2. Grace James
3. Elen Lloyd Williams

Cyfnod Sylfaen (Agored): 4 cacen 'Rice Krispie'

2. Demie Farrar Bryant, Llys Etna
3. Alaw Grug Morgan, Pentrebach, Tal-y-bont

Cyfnod Allwedol 2 (Agored): Wŷ wedi'i beintio

- 1 a 3. Beca Jenkins, Rhos, Taliesin
2. Ifan Jenkins, Rhos, Taliesin

PLANT YSGOL UWCHRADD

Llysieuyn gyda wyneb

1. Hana Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl

4 myffin

2. Becca Fflur, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont

3. Hana Evans

Quiche

1. Hana Evans

Geoffilter snapchat ar gyfer y sioe

1. Heledd Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont

Llun wedi ei beintio

- 2 a 3. Nia Benham

Tynnu llun 5 eitem yn dechrau gyda "T"

1. Heledd Davies
3. Ffion Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

Gwahoddiad a ddyluniwyd ar gyfrifiadur

- 1 a 2. Hana Evans

Eitem wedi ei gwneud yn yr Ysgol

1. Ffion Hicks
2. Heledd Davies

Cwpan am y nifer uchaf o

bwyntiau: Hana Evans

CLWB FFERMWYR IFANC

4 sgon ffrwythau

2. Ruth Morgan, Fferm Glandyfi


4 browni siocled


- 1 a 3. Ruth Morgan

Fy hoff swper

- 1 a 2. Ruth Morgan

Geoffilter snapchat ar gyfer y cneifio cyflym





1. Sara Jenkins, Tyngraig,
Tal-y-bont
Eitem gwaith coed
1. Ruth Morgan
**Hysbyseb ar gyfer y cneifio
cyflym neu'r sioe**
1. Steffan Nutting
Cwpan am yr arddangosfa orau:
Ruth Morgan
**Cwpan am y nifer uchaf o
bwyntiau:** Ruth Morgan

CEFFYLAU

Merlota

2. Becca Fflur, Dôl Pistyll
Gwisg Ffansî
2. Matthew Jones, Llwynadda

HOLSTEIN

Heffer Ifanc

1. G a R Watkin Henllys,
Dolybont

3. Teulu Cerrigcaranau

Heffer Gyflo

1. G a R Watkin

3. Teulu Cerrigcaranau

Buwch Gyflo

1. Teulu Cerrigcaranau

Heffer Odro

1. G & R Watkin

3. Teulu Cerrigcaranau

Buwch Odro

1. Teulu Cerrigcaranau

2. G a R Watkin

3. Teulu Cerrigcaranau

Par

1. Teulu Cerrigcaranau

2. G a R Watkin

3. Teulu Cerrigcaranau,

Pencampwr: Teulu

Cerrigcaranau

Cilwobr: G & R Watkin

DA DUON

Tarw a aned cyn 1-1-2015

1. Teulu Cerrigcaranau

Buwch yn Llaetha

1. Huw Jones, Llety Cynnes

Heffer a aned ar ol 1-3-2016

1. Teulu Cerrigcaranau

3. Trefor Jones, Cwmcae

Llo a aned yn 2017

1. Huw Jones

Buwch a Llo yn lloc

1. Teulu Cerrigcaranau

2. Dewi Tyngraig

Tywysydd Ifanc 11 oed a Iau

1. Carys Watkin

Tywysydd Ifanc 12-16

2. Bedwyr Siencyn

Pencampwr y Gwartheg Biff:

Huw Jones

Pencampwr Y Gwartheg

Teulu Cerrigcaranau:

Cilwobr Huw Jones

DEFAID MYNYDD CYMREIG

Hwrdd

2. Enoc a Dewi Jenkins

3. Dyfed Evans, Glanrafon

Hwrdd Blwydd

1. Teulu Tanrallt

2. Enoc a Dewi Jenkins

3. Dyfed Evans

Oen Hwrdd

2. Enoc a Dewi Jenkins

2 Ddafad

1. Enoc a Dewi Jenkins

2. Tanrallt

3. Enoc a Dewi Jenkins

2 Ddafad Flwydd

1. Enoc a Dewi Jenkins

2. Dyfed Evans

3. Enoc a Dewi Jenkins

Oen Fenyw

1. Enoc a Dewi Jenkins

2. Teulu Tanrallt

3. Enoc a Dewi Jenkins,

Grŵp

1. Enoc a Dewi Jenkins

2. Dyfed Evans

3. Steffan Nutting

Par o Hyrddod

1. Teulu Tanrallt

2. Enoc a Dewi Jenkins



3. Dyfed Evans

Is Bencampwr: Teulu Tanrallt

DEFAID TORDDU

Hwrdd

1. Dafydd Williams

3. Dafydd Williams

Oen Hwrdd

3. Dafydd Williams

Dafad

1. Dafydd Williams

Dafad Flwydd

1. Dafydd Williams

3. Dafydd Williams

Oen Fenyw

1. Dafydd Williams

2. Dafydd Williams

Pencampwr a Cilwobr: Dafydd Williams

TORDDU

Oen Hwrdd

1. Dafydd Williams

Dafad Flwydd

1. Dafydd Williams

Oen Fenyw

3. Dafydd Williams

Cilwobr: Dafydd Williams

TORWEN

Dafad

3. Dafydd Williams

MYNYDD ARALL

Oen Hwrdd

2. Teulu Alltgoch

Dafad Flwydd

3. Teulu Alltgoch

Oen Fenyw

3. Teulu Alltgoch

TEXEL

Oen Hwrdd

3. Teulu, Alltgoch

Dafad

1. Teulu Alltgoch

Dafad Flwydd

3. Teulu Alltgoch

Oen Fenyw

3. Teulu Alltgoch

Grŵp

1. Teulu Alltgoch

DORSET MOEL A

CHORNI OG

Hwrdd

2. Griffiths, A Davies, Dolclettwr

3. Griffiths, A Davies, Dolclettwr

Oen Hwrdd

1. Griffiths a Davies

3. Griffiths a Davies



Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dafad Oedranus

Griffiths a Davies

Dafad Flwydd

2. Griffiths a Davies

Oen Fenyw

3. Griffiths a Davies

ZWARTBLES

Oen Hwrdd

1. Susan Rowlands, Erglodd

Dafad

2. Susan Rowlands

Dafad Flwydd

1. Susan Rowlands

Oen Fenyw

2. Susan Rowlands

Pencampwr: Susan Rowlands

DEFAID PRIN

Hwrdd

2. Trefor Jones, Cwmcae

Oen Hwrdd

3. Elfed + Ffion Jones, Berthlwyd

Dafad

2. Trefor Jones

Dafad Flwydd

3. Trefor Jones

Oen Fenyw Oen Fenyw

1. Elfed & Ffion Jones

3. Elfed & Ffion Jones

ŴYN TEWION

Dan 32 Kg

2. Teulu, Alltgoch

Dros 32 kg

1. Gwion Evans, Tanllan

Ŵyn Mynydd

1. Teulu Alltgoch

Pencampwr ŵyn mynydd: Teulu

Alltgoch

Pencampwr: Gwion Evans

CNEIFIO

Peiriant Agored

1. Elgan Evans

3. Rhydian Evans

CFFI

3. Dewi Tyngraig

CŴN

Ci neu ast 6-12 mis

3. Rebecca Davies, Lletyfanhen



Ci neu ast heblaw ci hela

3. Paul Kelly

Ci defaid yn gweithio

1. Becca Davies, Bontgoch

Ci dan 12 modfedd

1. Sue Lewis, Tre'r Ddôl

2. Brandon Kelly

3. Joan Evans, Bontgoch

Dros 12 modfedd

Ewan Wells, Talybont

Dangosydd dan 12

1. Brandon Kelly

2. Becca Davies

Dros 12

3. Lily Jones a Gwen, Talybont

Cyflwr Gorau

Brandon Kelly

Cynffon yn siglo

1. Steve Clarke, Davmor Garage

IEIR

Unrhyw Fath Plu Caled Ceiliog

1. Leah Cartwright, Neuadd Fach

Bantam Pluen Feddal

3. Elen Jenkins, Neuadd yr Ynys

Bantam Gwir

3. Elen Jenkins

Croes Frid (plant dan 15)

2. Becca Fflur, Dôl Pistyll

3. Becca Fflur, Dôl Pistyll

HWYAID

Brid ysgafn Barlat

1. Becca Fflur, Dôl Pistyll

Hwyaden

1. Becca Fflur, Dôl Pistyll

3. Becca Fflur, Dôl Pistyll

Miniatur

1. Becca Fflur, Dôl Pistyll

3. Becca Fflur, Dôl Pistyll

Plant Dan 15

1. Becca Fflur, Dôl Pistyll

3. Becca Fflur, Dôl Pistyll

Pencampwr Hwyaidd:

Becca Fflur, Dôl Pistyll

Pencampwyr y Sioe

Cobiau D Bridfa Paith, Goginan

Cobiau C Peter De Rade, P umpsaint

Merlen ac Ebol G & K Harris, Llanarth

Arddangosiad gorau (dosbarth 1-29) R R Jones, Dolgellau

Dan 2 fwydd D Dykes & J Nicholson, Cross Inn

Ferlen Mynydd D Dykes & J Nicholson

Ferlen Mynydd B R R Jones, Dolgellau

Merlotta Megan Williams, Borth

Helfarch Eiry Bonner, Llanbadarn

Hurfeirch M J Muir, Talgarreg

Lliw a Palomino M J Muir

Mynydd a Gwendir Rebecca Williams, Penfforddlas

Rhan Frid Cymraeg Megan Williams

Pencampwr y Sioe Caryl Evans, Llanilar

Ceffylau Gwedd J & H Harries, Plwmp

Stalwyn J & H Harries

Defaid Mynydd Hefin Jones, Rhydymain

Defaid Duon Bethan Davies, Llanfynydd

Torddu Eleri Evans, Llanrhystud

Torwen Eirian a Jasmine Jones, Capel Isaac

Penfrith Hywel a Susan Watkin, Llanfyllin

Bryd Mynydd Arall Trefor Jones

Dorset Moel A Chorniog Llyr James, Penuwch

Jacob W E Lewis, Llanddeiniol

Suffolk Teifion Morgan, Aberteifi

Charollais Caryl Vaughan, Llanon

Texel G Williams, Llanwnen

Balwen Gethin Morgan, Llanbedr P S

Beltex Dafydd Owen, Drenewydd

Bridiau Pur Eraill G Williams, Llanwnen

Prin E A Price, Llanidloes

Pencampwr Y Defaid: Dafydd Owen

Cilwobr: Trefor Jones

Ieir Huw Thomas, Aberarth

Geifr Llyr Griffith, Llangurig

Cŵn Liz Mathias, Aberaeron

Chris Kloos, Caerfyrddin

Tywysydd Ifanc Bunny Mathias, Ffos y Ffin

Cneifio, Llaw John Shorey, Llanfyllin

Peiriant Cffi Llyr James, Penrhyncoch

Dan 18 Oed Huw Jones, Abergynolwyn

Rasus Cŵn

Dosbarth 1

Ras i gŵn defaid

1af Ann Haggard - Lola

2il Pownall - Jake

Dosbarth 2

Ras i Ddaeargwn

1af Iola Evans - Bella

2il Katy Prickett - Roo

3ydd Brina Evans - Rhystud

Dosbarth 3

Ras i Filgwn neu Chŵn

potsiwr

1af Iwan Wells - Fly

2il Tomos James - Sunny

3ydd Annie May - Boost

Dosbarth 4

Ras i Filgwn bach

Dim yn cystadlu

Dosbarth 5

Ras i unrhyw frîd arall coes byr

1af Steffan Gillies - Mali

2il Anna Sistern - Flash

3ydd Aled Jenkins - Maddy

Dosbarth 6

Ras i unrhyw frîd arall coes hir

1af Andy Bakewell - Sam

2il Siôn Southgate - Bella

3ydd Beca Tandy - Eli

Dosbarth 7

Ras i Ddisgyblion

ysgol gynradd

1af Steffan Gilles - Mali

2il Jaden Shuttleworth - Dawson

3ydd Tarran Cruise - Lilly

Dosbarth 8

Ras i ddisgyblion ysgol

uwchradd

1af Iwan Phillips - Nel

2il Joe Harvey - Hugo

3ydd Becca Fflur - Ruby

Dosbarth 9

Ras i ferched a'u cwn

1af Charlotte Drakeley - Joey

2il Amanda Binks - Bathy

3ydd Sarah Wolf - Tuy

Dosbarth 10

Ras i ddynion a'u cwn

1af Rhodri Richards - Eli

2il Siôn Southgate - Max

3ydd Ian Jewell - Bailey

Ras olaf y diwrnod

Tomos James - Sunny



Bont-Goch ar Glawr

Pan euthum i weld Richard Huws yn ei gartref, Pantgwyn, Bont-goch, bnawn Llun Gŵyl y Banc, roedd cwmni gydag ef a'i wraig Eirlys. Yno, yn eu hwyliau arferol, roedd y chwiorydd Gwladys ac Iona a oedd wedi galw draw i brynu copïau o lyfr newydd Richard sef *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch), Ceredigion*. Manteisiais ar y cyfle i dynnu llun Richard gyda'r ddwy a oedd yn amlwg wrth eu bodd o gael copi o'r gyfrol ddifyr.

Er mai un o feibion Rhydargaeau ger Caerfyrddin yw Richard, bu'n byw yng Ngheredigion am flynyddoedd lawer. Tra roedd yn byw yn Nhregaron, roedd yn olygydd *Y Barcud* cyn symud i Aberystwyth, nid nepell o'i waith fel llyfrgellydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Daeth i fyw i Bont-goch yn 2002, gan ymddiddori yn hanes a thraddodiadau ei fro fabwysiedig.

Wedi iddo ymddeol, ar ôl 38 mlynedd o wasanaeth yn y Llyfrgell, aeth ati i gyhoeddi nifer o lyfrau ar bêl-droed ac fe welch yn y llun ei fod yn gwisgo crys Abertawe, clwb y bu'n ei gefnogi'n selog ers yr 1950au.


Ers rhyw ddeng mlynedd bu Richard yn ddiwyd yn casglu gwybodaeth a lluniau am dai a ffermydd plwyf Elerch a'r cyffiniau. Ar wahân i chwilota yn y Llyfrgell Genedlaethol, bu'n holi hwn a'r llall am hanes eu cartrefi. Ffrwyth ei lafur yw'r gyfrol fechan ddeniadol sy'n olrhain hanes holl dai'r plwyf, gan gynnwys dros saithdeg o luniau hen a newydd.

Ceir nifer o hanesion difyr am darddiad enwau rhai o'r tai, rhai ohonynt yn deillio o'r hen oesoedd, fel *Carregydifor* a *Llety Ifan Hen*. Adroddir hefyd bod ffermdy presennol *Llety Ifan Hen* yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif. Penybryn oedd yr enw yn y cyfnod hwnnw a bod adfail y *Llety Ifan Hen* gwreiddiol i'w weld tua hanner milltir i ffwrdd. Nid yr enw gwreiddiol oedd Moelgolomen chwaith gan mai *Tyddyn Bulch y Pant Mawr* oedd enw'r ffermdy yn y ddeunawfed ganrif.

Enwau Cymraeg sydd ar dai'r plwyf i gyd hyd at yn ddiweddar ond yn 2006 adeiladwyd tŷ pren gyda'r enw Ffinneg *Hirsitalo* a gair Arabaidd sydd ar dŷ arall yn y plwyf, sef *Aldebaran*. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau cymdeithasol ac ieithyddol sy'n nodweddi'r dalgylch erbyn hyn ond tra bo llyfr Richard ar gael, bydd modd olrhain hanes hynod Bont-goch a'r cylch.

Cyhoeddwyd *Enwau tai a ffermydd Bont-goch (Elerch), Ceredigion* gan yr awdur, gyda chymorth Cronfa Eleri. Y Lolfa wnaeth y gwaith argraffu. Cyflwynir unrhyw elw i Ambiwylans Awyr Cymru ac mae'r gyfrol ar werth am ddeg punt namyn ceiniog mewn siopau lleol, siopau llyfrau ac arlein oddi wrth Gwales.com.

Mae modd hefyd darparu copi drwy'r post am £12.00 os cysylltir gyda'r awdur ar y cyfeiriad canlynol: Pantgwyn, Bont-goch (Elerch), Ceredigion SY24 5DP neu rehuws@aol.com



Y Gair Olaf



I feddwl ein bod ni'n dod i ddiwedd cyfnod yr haf mae'n teimlo fel bo' ni heb gael un y mis diwethaf. Ond gyda'r tywydd gwlyb ac ambell i ddiwrnod braf mae gerddi Tal-y-bont yn barod ar gyfer cyfnod y sioe.

Bob blwyddyn mae'r pentref yn casglu eu hoff ryseitiai, crefftau neu hen luniau i'w arddangos, gan obeithio fod ganddynt y llun perffaith ar gyfer y testun neu'r gacen sy'n mynd i blesio'r beirniad. Mae safon y babell fawr ac wrth gwrs y cystadlaethau da byw yn gyson wych, llond cystal â'r hyn a welir yn y Sioe Frenhinol medd rai.

Dwi'n credu bod diwrnod y sioe yn amlygu ochr gystadleuol trigolion Tal-y-bont er 'falle bod rhai ddim yn hoffi cydnabod hyn. Yn amlycach yn y gystadleuaeth rhwng mam a merch am bwy sy'n coginio'r pice ar y maen gorau, neu yn fy achos i, cystadleuaeth y gosod blodau. Ond erbyn diwedd y dydd wrth fwynhau bedlam y rasys cŵn mae pawb wrth eu boddau ac wedi anghofio am yr ennill neu'r colli yn ystod y dydd. Yna erbyn diwedd y nos mae'r patshyn glas wedi'i llenwi efo cynulleidfa yn aros yn eiddgar am adloniant y cneifio cyflym. Diwrnod i'r brenin. Joio!

Lois Jones

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr CLERC I'R CYNGOR

Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser (tua 34 awr y mis) uchod i ddechrau cyn gynted â phosib.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â
Lowri Jones: 07886 367027 | cyngorcaml@gmail.com

Dyddiad Cau: 2 Hydref 2017

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol i'r swydd yma.

Casgliad Cymorth Cristnogol 2017

Casglwyd fel a ganlyn:

Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos) £115.00
Stryd y Capel a Maes y Felin (Falyri Jenkins) £232.43
Ardal Bontgoch (Geraint Evans) £87.20
Pentref Tal-y-bont (Helen Jones) £138.08
Ardal Cynullmawr (David Nutting) £121.00
Maesyderi (Lynn Ebenezer a Sue Jones-Hughes) £46.19
Dan y Dderwen i'r Ffald (Bleddyn a Delyth Huws) £28.50
Dôl Pistyll, Penlon a'r Ffald (Anwen Jenkins) £115.26
Pensarn a Chwm Ceulan (Gwilym Jenkins) £107.53
Parsel Henllys (Wendy Watkins a Janet Jones) £114.81

Derbyniwyd £200.00 o gasgliad y Gymanfa Ganu ym Methel ac yr ydym yn ddiolchgar iawn am hyn, felly'r cyfanswm terfynol oedd £1,306.00.

Ar ran y pwyllgor diolchwn i bawb am eich rhoddion eto eleni. Hoffwn ddiolch i Lynn, Sue ac Eurllys am gasglu ers sawl blwyddyn a chroesawu Anwen Jenkins at y tim o gasglwyr. Diolch i chi i gyd am eich parodrwydd i fynd o gwmpas i gasglu yn flynyddol.

Gwilym Jenkins a Janet Jones

Teyrngedau

Brenda Jeeves

Bu farw Mrs Brenda Jeeves yn dawel ar 17 Mehefin yn Ysbyty Tregaron yn 84 oed.

Roedd yn adnabyddus yn Nhre Taliesin a Thal-y-bont lle cafodd ei magu gyda'i chwaer Myra a'i brodyr, Gareth ac Alwyn.



Ganed Brenda yn Islington yn 1932 gan ddychwelyd i

Gymru gyda'i theulu yn ystod y rhyfel i fyw yn Odyn-fach ger Tal-y-bont. Roedd ganddi nam etifeddol ar ei chlyw drwy gydol ei bywyd serch y driniaeth a gafodd yn Ysbyty St Thomas yn Llundain fel merch ifanc. Tra oedd yn Llundain cafodd hyd i waith yn y '*mighty Pru*' (Pencadlys Yswiriant Bywyd Prudential). Yno, cyfarfu â'i gŵr Jack a phriododd nhw ym 1964 yng nghapel Cymraeg Kings Cross.

Bu Jack a Brenda yn byw yn Buckhurst Hill, Essex nes iddynt ymddeol. Byddent yn dod yn ôl i Gymru yn rheolaidd (ambell waith byddai Brenda yn gyrru'r holl ffordd o Lundain i Dal-y-bont ar ei sgwter Vespa ffyddlon). Fel Ffrainc-garwyr o'r iawn ryw buont yn teithio Ffrainc benbaladr i flasau danteithion bwyd a chynnyrch gwinllannoedd y wlad.

Y dewis amlwg ar ôl ymddeol oedd dychwelyd i Gymru a symudon nhw i fyw i Lys-y-coed, Taliesin ym 1987. Adarwyr brwd oedd Jack a Brenda a byddent yn ymweld â gwarchodfeydd adar yn aml gan gynnwys RSPB Ynyshir ac *Osbreiarium* Dyfi chwedl Brenda. Roedd hi a Jack yn dwlu ar golff hefyd a thestun balchder i Brenda oedd y ffaith mai cyn-gapten Tim Merched Aberdyfi oedd hi.

Cymeriad a hanner, llawn hiwmor oedd Brenda – roedd hi hefyd yn hael, caredig ac yn werthfawrogol iawn o'r help a dderbyniodd ar ddiwedd ei hoes. 'Ardderchog' oedd pawb yn ei thyb hi!

Roedd hi'n awyddus i'w disgrifio ei hun fel Cocni o Gymraes, gan gadw'n driw i'w gwreiddiau ar Gymraeg drwy gydol ei bywyd.

Jenny Fell, ffrind a chymdoges

Vera Lewis

Ganed Vera yng Nghilolwg, Y Borth ar 25 Mehefin 1927, yn un o wyth o blant, Hugh, Megan, Nancy, Emily, Wil a Rosa a John sy'n dal i fod gyda ni heddiw. Ffermwr oedd tad Vera a fu farw pan oedd hi'n ifanc iawn.

Aeth Vera i ysgol gynradd Rhydypennau ac ymlaen i astudio yn Ysgol Ramadeg Ardwyn. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gweithiodd Vera a'i chwaer Emily fel merched Byddin y Tir. Yn nes ymlaen, symudodd y teulu i Frynnderwen yn Nôl-y-bont. Yn ystod ei hamser yno y cyfarfu Vera â'i darpar ŵr Tom a fyddai'n ymweld â'r fferm yn aml i ddosbarthu nwyddau.

Priododd Vera â Tom ym 1960, gyda Vera'n dewis gwisgo ffrog glas tywyll fel un a hoffai fod ychydig yn wahanol! Roedd eu cartref yn Waun-fawr lle'r oedd Tom yn rhedeg 'Siop y Waun' tra oedd Vera'n brysur yn magu eu plant Emyr ac Iona.

Yn y pen draw, symudodd y teulu i Dre Taliesin a dechreuodd Vera weithio yng Nghaffi Cletwr lle byddai wrth ei bodd yn sgwrsio â phobl gan ddod yn ffrindiau â phawb.

Ym 1992, er tristwch mawr i Vera bu farw Tom. Ond roedd ei hwyresau, Ffion Jane ac Anna yn ei chadw'n brysur ac fe fuont yn gysur mawr iddi.

Roedd synnwyr digrifwch gwych gan Vera ac roedd hi'n wybodus iawn. Byddai Ffion yn ei ffonio'n aml i bigo'i brêns gan ei galw'n 'fy Wicipedia personol'.

Fe wnaeth Vera a'i chymeriad unigryw gyffwrdd â llawer un gyda'i byd-olwg unigryw a bydd yn dal i wneud hynny drwy gydol bywydau pawb oedd yn ei nabod.

Seiliedig ar deyrnged i Vera gan ei merch, Iona



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

I gloi gweithgareddau'r tymor ac i ddathlu'r aur, trefnwyd swper yn 'Libanus' y Borth gan Betty ac Aileen.

Wedi gwledda aeth y perchennog, Mr Peter Fleming, â ni o amgylch yr adeilad, a oedd wedi ei addasu'n helaeth o hen gapel 'Y Gerlan', gan roi hanes y trawsnewid a fu ynghyd â'r darganfyddiadau.

Cyn troi am adre, cyflwynwyd rhosyn 'aur' i bob aelod i gofio am yr achlysur.

Wedi seibiant dros yr haf byddwn yn ail gychwyn ar 25 Medi yng nghwmni Claire Jones ac Edryd Williams am noson o 'Gerddoriaeth Gwerin'.

Achub bywydau

Mae pob eiliad yn cyfrif pan fyddwch yn cael ataliad ar y galon.

Ceir 8,000 o ataliadau sydyn ar y galon y tu allan i'r ysbyty yng Nghymru bob blwyddyn a chyfradd oroesi o 3% yn unig.

Dyfais drydanol yw diffibriliwr sy'n rhoi sioc i'r galon os bydd ei churiad yn afreolaidd neu wedi peidio'n ddisymwth, i'w galluogi i ddechrau curo'n normal ac yn rheolaidd eto.

O ddefnyddio'r offer hwn, gall y gyfradd oroesi gynyddu i 50%, ond mae ymateb cyflym yn hollbwysig hefyd.

Yn ddiweddar, ymwelodd Nick Aitken o Calonnau Cymru â Hyb Cymunedol Cletwr yn Nhre-ddôl i hyfforddi aelodau o'r gymuned mewn defnyddio'r diffibrilwyr neu ddyfeisiau AED a leolir ym mhentrefi mwyaf gogleddol Ceredigion:

Bow Street: y Spar

Eglwys-fach: y ciosg ffôn

Llangynfelyn: yr eglwys

Taliesin: Capel Rehoboth

Tal-y-bont: y safle bws yn y pen gogleddol a thafarn y Llew Gwyn

Tre'r-ddôl: Cletwr

Dyma'r drydedd sesiwn hyfforddi yn y Cletwr ers iddo agor bedair blynedd yn ôl.

Cynhelir mwy o sesiynau hyfforddi yn y dyfodol - cysylltwch â'r Cletwr ar 01970 832113 neu gweler tudalen Facebook Cletwr i gofrestru'ch diddordeb.

Elusen yw Calonnau Cymru sy'n dibynnu ar roddion a digwyddiadau codi arian. Ewch at <http://welshhearts.org/cy> i weld sut gallwch helpu neu gymryd rhan.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsau a bubblewrap arlein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODDWR
IN PEOPLE | MEWN POBOL

Ysgol Tal-y-bont



Ysgol Eco – Llwyn Merched y Wawr

Y Cyngor Ysgol wedi mwynhau'r chwynnu a'r mesur cyn plannu'r llwyn euraidd i ddathlu pen blwydd Merched y Wawr yn 50 oed. Diolch yn fawr i Mrs Falyri Jenkins am bob cymorth.



Ail Faner Werdd

Hwrê! Da iawn bawb am weithio mor galed i ennill yr ail faner werdd.



Parti Ffarwel Blwyddyn 6

Llongyfarchiadau i flwyddyn 6 am gynnal cyngerdd 'Hwyl Fawr' arbennig cyn diwedd y tymor. Diolch am eich cwmni a phob lwc i chi yn yr ysgolion uwchradd.



Adnoddau Newydd

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae'r llyfrau darllen a'r glieniaduron newydd wedi cyrraedd!



Enillwyr yr 'Intermediates'

Cneifio Cyflym

Canlyniadau Cneifio Cyflym Tal-y-bont 2017

Ieuencid (Juniors)

1af - Llion Harries (24.83)
2il - Ifan Jones (26.65)
3ydd - Rhys Lewis (28.45)

Canolradd (Intermediates)

1af - Dewi Jenkins (19.45)
2il - Gwion Evans (21.41)
3ydd - Rhys Richards (24.67)

Dosbarth Uwch (Seniors)

1af - Dewi Jenkins (20.43)
2il - William Evans (21.11)
3ydd - James Butler (24.55)

Agored

1af - Alwyn Manzini (18.49)
2il - Alun Lloyd Jones (19.93)
3ydd - Gerallt Evans (21.55)

Hen Lawie

1af - Huw Rees (24.31)
2il - Enoc Jenkins (25.46)
3ydd - Dafydd Jenkins (30.54)

Cystadleuaeth y timau

1af - Bailey's Boys (Geraint Jenkins, Richard Bailey a Gwion Evans)

Prawf Tal-y-bont v Pennal

1af - Tal-y-bont
2il - Pennal

Dyfalur amser (£100)

Helen Jones, Gellimanwydd



Tim Bailey's Boys

Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Daeth criw da at ei gilydd i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar y 28 Mehefin a diolchwyd i olygyddion y mis, y dylunwyr, y gohebwyr, y dosbarthwyr a'r cyfranwyr eraill am sicrhau bod deg rhifyn graenus wedi ymddangos yn ystod y flwyddyn.

Bu'n gyfnod prysur a chyfeiriwyd gyda balchder at sefydlu gwefan newydd Papur Pawb a'r papur sain newydd fel datblygiadau pwysig.

Nodwyd ein diolch i'r diweddar John Leeding, un o hoelion wyth y papur, am ei gyfraniad yn dosbarthu rhifynnau dros nifer o flynyddoedd. Mawr iawn fydd y colled ar ei ôl.

Braf oedd gweld fod sefyllfa ariannol y papur yn iachus ar hyn o bryd.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2017-18:

Cadeirydd: Gerwyn Jones

Is-gadeirydd: Catrin M S Davies

Ysgrifennydd: Rhian Evans

Trysorydd: Rebecca Williams

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins

Mae plesio darllenwyr yn bwysig wrth gwrs ac os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu syniadau am gynnwys y papur, neu am gynorthwyo mewn unrhyw fodd gyda chynhyrchu Papur Pawb cofiwch gysylltu â ni ar golygydd@papurpawb.com



Shelagh a Louisa yn dylunio addurniadau ar gyfer yr adeilad newydd

Y Cletwr Newydd

Ers misoedd bellach, mae unrhyw un sy'n teithio i gyfeiriad Machynlleth ar hyd yr A487 wedi sylwi ar adeilad newydd yn codi fel pe bai o ludw'r hen orsaf betrol yn Nhref-ddôl.

Gwyddom eisoes am y gamp ryfeddol a gyflawnwyd wrth lwyddo i agor siop gymunedol yn yr hen Wasanaethau Cletwr - am y cynnyrch amrywiol a safonol a gynigir yno, am y caffî penigamp, ac am yr ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd drwy'r flwyddyn.

A nawr, mae'r fenter yn cymryd y cam nesaf, sef symud mewn i'w adeilad newydd. Llwyddwyd i ddenu symiau o arian sylweddol, a chael penseiri lleol i'w ddylunio.

Am **9 o'r gloch, bore dydd Iau, 28 Medi**, cawn foddio'n chwilfrydedd, gan fod Cwmni Cymunedol Cletwr yn gwahodd cwsmeriaid ffyddlon, cefnogwyr, gwirfoddolwyr a chyfeillion i'r agoriad mawreddog. Eu neges yw "Dewch i'n helpu ni i ddathlu'r gamp syfrdanol hon, sy'n dangos pŵer cymuned i greu newidiadau positif er lles pawb."

Ar ddydd Iau 28, dydd Gwener 29 a dydd Sadwrn 30 Medi, bydd rhai o gyflenwyr y siop yn bresennol i siarad â chwsmeriaid am eu cynnyrch ac i gynnig samplau i'w blasu. Ac mi fydd sachau anrhegion i'r 100 cwsmer cyntaf - felly brysiwch yno!

Os ydych awydd rhoi help llaw i'r fenter, mae apêl am gymorth yn ystod y dyddiau'n arwain at yr agoriad - a chyfle am sbec ar yr adeilad newydd cyn yr agoriad swyddogol:

- clirio'r hen Gletwr - gan gynnwys pobl â faniau neu drelars i fynd â phethau oddi yno i'r tip/Craft: dydd Mercher 13, dydd Sadwrn 16, dydd Iau 21, dydd Sadwrn 23, dydd Sul 24 Medi
- cadwyn symud stoc, ail-stocio, labelu silffoedd, gwneud te, a sicrhau fod popeth yn berffaith ar gyfer yr agoriad: dydd Llun 25, dydd Mawrth 26 a dydd Mercher 27

Cysylltwch ar 01970 832113 neu cletwr@cletwr.com os ydych am helpu.

Edrychwn ymlaen at yr agoriad, ac at weld lluniau o'r achlysur a'r adeilad newydd yn rhifyn nesaf Papur Pawb.



Un o weithgareddau'r haf yng Nghletwr:fe gafodd pobl ifainc wers mewn ffotograffiaeth gan y ffotograffydd Giles W. Bennett, enillydd gwobr y Guardian



Nigel Callaghan

Hanes Tafarndai Lleol Ar-Lein

Mae Nigel Callaghan, Taliesin, yn un o griw o haneswyr lleol sydd wrthi'n datblygu gwefan ddwyieithog newydd sbon o'r enw *Peint o Hanes Plis* (<http://pint-of-history.wales/cy/explore.php>). Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am holl dafarndai Ceredigion. Mae ynddo hen dafarndai sydd wedi cau, rhai sydd wedi goroesi hyd heddiw, ynghyd â bragdai. Ac ar gyfer y dirwestwyr yn ein plith, mae hanes gwastai a thai dirwest y sir.

Mae'r prosiect dan gochl Fforwm Hanes Lleol Ceredigion gyda chysylltiad agos i *Cynefin*, y prosiect i ddigido holl fapiau degwm Cymru. Adroddwyd ar y prosiect hwnnw yn rhifyn Ionawr *Papur Pawb*.

Nigel sydd wedi datblygu'r wefan sydd bellach yn cynnwys gwybodaeth am 965 o dafarndai ac adeiladau eraill, 253 o leoedd a 182 o bobl. Mae yno hefyd 246 o luniau a chardiau post, 79 o arwyddion tafarn, 408 erthygl papur newydd, 227 o fapiau a 96 dogfen ar y gronfa ddata.

Mae Nigel yn awyddus i gael cymorth y cyhoedd i ychwanegu hanesion am y tafarndai a cheir yr apêl daer hon ar dudalen flaen y wefan:

"Mae'r safle hwn yn dal i dyfu! Gallwch helpu <<http://pint-of-history.wales/cy/cyfrannu.php>> drwy gyfrannu storïau, dogfennau a lluniau am dafarndai Ceredigion."

Yn naturiol mae sylw'r ymchwilydd yn troi at dafarndai lleol ac mae sawl cyfeiriad a fydd o ddiddordeb penodol i ddarlennwyr *Papur Pawb*. Diddorol yw sylwi na fu erioed tafarn ym mhlwyf Ysgubor-y-coed ond roedd sawl un yn Llangynfelyn a Cheulanamaesmawr dros y blynyddoedd. Byddwn yn adrodd am rhai ohonynt yn ystod y misoedd nesaf ond y tro hwn fe ganolbwyntiwn ar dafarndai Tre-Taliesin.

Pan oedd Tre-Taliesin yn ddim ond clwstwr o dai, enw'r pentref bach ar y mapiau oedd Y Dafarn Fach. Erbyn yr 1820au daeth Tre-Taliesin yn enw swyddogol ar y pentref. Mae Nigel o'r farn bod y 'dafarn fach' wedi'i lleoli ar ddarn o dir nesaf i safle capel Rehoboth. Enw'r dafarn ganol yr 1800au oedd Tafarn y Frân (the Raven) neu Dafarn Mariah. Yn ail hanner y 19eg ganrif y dafarnwraig oedd Mariah Morris ac yn 1865 fe'i cosbwyd yn llys bach Tre'r-ddôl am werthu cwrw ar y Sul. Caewyd y dafarn hon cyn diwedd y 19eg ganrif.

Bydd llawer o ddarlennwyr hŷn *Papur Pawb* yn cofio'r Royal Oak ger y ffordd fawr yn Nhref-Taliesin. Tynnwyd y peint olaf yno ganol yr 1970au a dymchwelwyd yr adeilad wedi hynny. Ar y wefan ceir hanes trist hen wraig 80 mlwydd oed o'r enw Gracey Mannion ("Gracey Tinns") a ddarganfuwyd yn farw mewn ffos ger Neuadd yr Ynys yn 1906. Roedd wedi bod yn yfed yn drwm yn y Royal Oak y noson gynt a chredir iddi syrthio i'r ffos a marw o oerfel.

Gyferbyn â safle'r Royal Oak saif Temperance House, lle y bu teithwyr mwy syber na "Gracey Tinns" yn aros.

GJ



Y Royal Oak, Taliesin, yn yr 1930au



Beirniadu yn y Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau mawr i Dyfed Evans, Glanrafon, Tal-y-bont fu'n beirniadu'r Defaid Mynydd Cymreig (Adran Fynydd) yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd ddiwedd Gorffennaf. Fe ydy'r ail o deulu Glanrafon i gael y frainc o feirniadu yn y Sioe, gan ddilyn yn ôl traed ei fam Beryl a fu'n beirniadu'r brid nôl yn Sioe 1994. Dywedodd Dyfed "Roedd cael beirniadu'r Defaid Mynydd yn y Sioe Fawr yn anrhydedd ac roeddwn yn falch o gael bod ymysg yr unigolion ifancaf i gael gwneud hynny."



Gŵyl Lenyddol a Chystadleuaeth Farddoniaeth R.S. Thomas

Cynhelir Gŵyl Lenyddol R.S Thomas ar 15-17 Medi 2017 yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach. Mae'r Wyl yn gyfle i ddathlu a choffáu bywydau'r bardd R.S. Thomas a'i wraig, yr artist M.E. Eldridge.

Ymhlith yr artistiaid a'r siaradwyr fydd yn cymryd rhan y mae Esgob Tŷ Ddewi, Joanna Penberthy, Ifor ap Glyn, Tony Brown, Gillian Clarke, Jeremy Moore, Peter Lord, Jason Walford Davies a bydd perfformiad byw gan Sgarmes.

Am fanylion pellach ewch i'r wefan:

<http://www.eglwysfach.co.uk/festival.html> neu cysylltwch â'r trefnwyr: Alison Swanson (alisonswanson@hotmail.com), Delyth Griffiths (Delyth.griffiths@talk21.com) neu Joy Neal (j.neal789@outlook.com).



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk



Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont

Cynhaliwyd ein treialon eto eleni yn Llety Ifan Hen, drwy garedigrwydd y teulu, ac ar y dydd Mercher cyntaf yn Awst fel arfer.

Gyda'r tywydd wedi bod mor ansefydlog dros yr wythnosau blaenorol, roedd pryder ynglŷn â'r rhagolygon. Ond fe gadwodd y gwynt cryf, a chwythodd o'r mynydd ac yng ngwynebau'r cystadleuwyr, y glaw i ffwrdd bron drwy'r dydd.

Dechreuodd y treialon yn fuan wedi hanner awr wedi wyth y bore, a cafwyd mwy na digon o gystadleuwyr, nifer wedi dod yn groes o'r cyfandir - o Ffrainc, yr Eidal, yr Iseldiroedd a Sweden yn bennaf, i'n cadw i fynd tan naw yr hwyr pan aeth yn rhy dywyll arnom.

Gyda'r silwair wedi'i gynaeafu o'r cae yn gynnar, roedd adlodd da wedi tyfu a hynny'n gymorth i gadw'r defaid gyda'i gilydd i'r cystadleuwyr eu cyrchu. Ond eto, roeddent yn styfnig iawn i fynd drwy'r clwydi croes ac i'w corlannu.

Ar ddiwedd y dydd, diolchodd y cadeirydd i'r beirniad, Jane Drinkwater o Gribyn, am ei gwaith yn ystod diwrnod hir iawn a chyhoeddodd yr enillwyr.

Enillwyd y **Dull Cenedlaethol** gan Llŷr Evans o Bronant a'i gi Zac gyda rhediad arbennig yn colli ond chwech o farciau. Yn ail oedd Islwyn Jones o Gapel Bangor gyda Tim. Dewi Tyngraig enillodd y drydedd a'r bumed wobwr, y drydedd gyda Moss a'r bumed gyda Bill. Rhyngddynt, ac yn bedwerydd, oedd Jeff Evans o Swyddffynnon gyda Glen, ac i gwblhau'r gwobrau yn y dull yma oedd John Price o Gwmerfyn gyda Sam.

Yn y dull **De Cymru** yr enillydd oedd Emyr Lloyd o Lanrhystud gyda Sal, ac yna Islwyn Jones yn ail eto gyda Tim. Yn drydydd oedd Irwel Evans o Ystrad Meurig gyda Fly, ac yn bedwerydd Eirian Morgan o Aberystwyth gyda Spot. Yna'n bumed oedd Dewi gyda Bill a'r wobwr olaf yn y dosbarth yn mynd i Irwel Evans eto, gyda Gem.



Irwel Evans gyda Fly enillodd y **dosbarth yn gyfyngedig i Geredigion** gyda Dewi a Joc yn ail ac eto yn drydydd gyda Bill.

Yn y **dosbarthiadau nofis** Dewi enillodd y Dull Cenedlaethol gyda Bill, ac Irwel y dosbarth De Cymru gyda Fly.

Enillwyd y wobwr am y **rhediad orau** cyn 12.30 gan Islwyn Jones a Tim, a'r wobwr am rediad orau'r dydd gan Llŷr Evans a Zac.

Diolchwyd i deulu Llety Ifan Hen am y cae a'r defaid i gynnal diwrnod llwyddiannus eto eleni gan yr is-gadeirydd Enoc Jenkins.

Wythnos wedi'r treialon yma, roedd Dewi a Moss yn cystadlu yn nhreialon Cymru ym Morgannwg a chawsant eu dewis yn y tîm o bymtheg i gynrychioli Cymru yn y treialon rhyngwladol i'w cynnal yn Northleach yn swydd Caerloyw rhwng Medi 8-10fed.

Mae'r pwyllgor yn llongyfarch Dewi ac yn dymuno'n dda iddo yn Northleach.

CHWARAEON



Llwyddiant i feicwyr Tal-y-bont

Cynhaliwyd Pencampwriaethau Rasio Ffordd Cymru 2017 yn ardal Llyn Brenig ar yr 20fed o Awst, a gwelwyd cryn llwyddiant i feicwyr o Dal-y-bont.

Mae'n chwe blynedd ers i Gruff Lewis, a fydd yn gyfarwydd i ddarlennwyr Papur Pawb, gael ei goroni'n bencampwr rasio ffordd Cymru.

Bellach yn ei ail flwyddyn gyda thîm proffesiynol Madison Genesis, roedd ei fryd eleni ar efelychu'r llwyddiant hwnnw.

Ond er ymdrech lew, ail oedd Gruff y tro hwn wrth i Dylan Kerfoot-Robson o Team Wiggins gario'r dydd.

Yn y ras ffordd i ferched, gwelwyd perfformiad caboledig iawn gan Anita Saycell o Ddôl Pistyll, Tal-y-bont a ddaeth yn bedwerydd, a hithau yn reidio dros y tîm lleol poblogaidd Clwb Beicio Ystwyth.

Ddiwrnod yn gynt, bu Anita'n cymryd rhan yn ras Pencampwriaeth Cymru yn Erbyn y Cloc, gan ddod yn drydydd.

Mae Anita wedi bod yn ddiwyd yn cystadlu ar hyd a lled Cymru a Lloegr ers dechrau'r flwyddyn, gan gychwyn ym mis Ionawr gyda buddugoliaeth mewn ras yn Stourport.

Mi fydd yn cwblhau blwyddyn brysur wrth iddi gystadlu ym Mhencampwriaethau Cylchffordd Cymru sy'n cael eu cynnal ar faes y Sioe yn Llanelwedd ar ddydd Sadwrn 9 Medi.

Un arall fu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Rasio Ffordd Cymru oedd Martyn Saycell, gŵr Anita.

Yn anffodus, rhwystrodd anawsterau mecanyddol Martyn rhag cwblhau'r ras ffordd ond daeth yn 12fed yn y dosbarth i ddynion dros ddeugain oed, yn y Ras yn Erbyn y Cloc.

Ond cafodd Jeff Saycell, brawd Martyn, sydd hefyd bellach yn byw yn Nhal-y-bont, fwy o hwyl ar y ras ffordd. Mewn ras gystadleuol iawn, daeth Jeff yn 15fed.

Nawr bod y dydd yn byrhau, mae'r tymor beicio ffordd yn raddol ddirwyn i ben, a sylw'r beicwyr yn troi at deithiau mwy hamddenol yr hydref ar gaeaf.

Ond fe ddaw eto dro ar fyd, neu olwyn yn yr achos hwn, a bydd y cystadlu'n aildechrau'n gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn y cyfamser, os oes ddiddordeb gyda chi mewn dechrau seiclo, mae Clwb Beicio Ystwyth, sydd yn dathlu ei 65 mlwyddiant eleni, yn cynnig rhywbeth at ddant pawb. Chwiliwch amdanynt ar y we, a rhowch gynnig arni!

Yr Ŵyl Bêl-droed Olaf



Am y chweched flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed Tal-y-bont ar Gae'r Odyn Galch ar 17/18 Mehefin. Trefnwyd y cyfan gan Glwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont, dan arweiniad medrus Ceri Jones.

Eleni roedd 82 tîm yn cystadlu dros y ddau ddiwrnod. Roedd cystadlaethau ar gyfer plant dan 7, dan 9, dan 11, dan 12, dan 14 a dan 16. Yn anffodus ni chafodd timau Tal-y-bont fawr o lwyddiant eleni ond roedd gweld cymaint o blant yn mwynhau chwarae'r gêm yn galondid.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer y dydd gan Searivers Leisure Ltd. Dymuna'r Clwb ddiolch hefyd i holl noddwyr eraill a fu'n gefnogol i'r Ŵyl. Noddwyd medalau'r gystadleuaeth dan 7 oed gan Statkraft Energy Ltd. Cafwyd cefnogaeth werthfawr ar gyfer y raffl gan DHD Wealth Management, y Wildfowler a Salon Leri.

Enillwyr y raffl oedd:

1af – £100, Joel Dixon

2ail – Pryd 2 cwrs i ddau, The Wildfowler, Paul Davies

3ydd – £50, Lona Phillips

Mae'r Clwb yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth: Debbie Benjamin a'r merched am drefnu'r bwyd ar y maes; Anthony Southgate ac Wyn Benjamin am baratoi'r maes; ac i'r holl wirfoddolwyr a sicrhodd holl llwyddiant y diwrnod.

Gan orffen ar nodyn trist, hon fydd yr Ŵyl Bêl-droed olaf i gael ei chynnal ar Gae'r Odyn Galch. Wedi chwe blynedd o weld yr Ŵyl yn mynd o nerth i nerth, daeth y les ar y cae i ben ac yn anffodus mae dyfodol y timau ieuencid yn ansicr iawn.